**Y PWYLLGOR DEDDFAU**

# ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR ORCHYMYN YMDDIRIEDOLAETHAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) (DIDDYMU RHIF 2) 1999

## ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid yw'r Pwyllgor Deddfau wedi nodi unrhyw bwynt o dan RhS 11.5.

fel mater lle mae angen iddo ddwyn sylw arbennig y Cynulliad ato.

### Cefndir

Y cyfan y mae'r Gorchymyn hwn yn ei wneud yw darparu ar gyfer diddymu'r ddwy ymddiriedolaeth NHS sy'n cael eu disodli gan ymddiriedolaeth NHS newydd Caerdydd a'r Fro.

Yn sgil diddymu'r ddwy ymddiriedolaeth bresennol mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorchmynion a sefydlodd yr ymddiriedolaethau hynny.

Sefydlir yr ymddiriedolaeth newydd o dan Orchymyn ar wahân.

### Sylwadau

Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

### Pwyntiau Cyffredinol

Mae rhai mân bwyntiau gyda'r cyflwyno y bernir y dylai'r Pwyllgor dynnu sylw'r Cynulliad atynt. Gellir cywiro'r materion hyn cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r Gorchymyn.

### Datgan Pwerau

Dylid rhoi "sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol" yn lle'r cyfeiriad rhyw-benodol at "sy'n ei alluogi".

### Troednodiadau

Dylai'r rhain fod ar ffurf golofnog yn y Gorchymyn printiedig.

Mae rhan olaf troednodyn (c) yn deillio o ddarpariaeth yn adran 66(4) o Ddeddf Iechyd 1999. Ond nid yw'n adlewyrchiad cywir o'r ddarpariaeth honno. Mae adran 66(4) yn darparu ar gyfer diwygio'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau gan Ddeddf 1999 i gael effaith fel petai'r Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau wedi'i wneud. Nid yw'n amlwg ar unwaith fod angen cyfeirio at y ddarpariaeth a wneir gan adran 66 o Ddeddf 1999 yn nhroednodyn (c) ond os oes unrhywbeth yn codi yn y fan hon ymddengys mai effaith adran 66(5)(c) ydyw ac efallai bod angen cofnodi hynny yn y troednodyn.

### Erthygl 2(2) a'r Atodlen

Mae’n debyg nad oes angen y ffurf ddwy golofnog bresennol. Gallai rhifau’r offerynnau statudol ymddangos yn hawdd ar ôl teitlau’r offerynnau dan sylw. Gydag Atodlen heb ei rhannu’n golofnau, gellid cadw at ffurf golofnog y testunau dwyieithog gyda thestun Cymraeg yr Atodlen ar ochr chwith y tudalen a’r testun Saesneg ar y dde.

**M GERMAN**

Cadeirydd,

Y Pwyllgor Deddfau

Tachwedd 1999

LC19

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

OFFERYNNAU STATUDOL

**1999 Rhif (Cy. )**

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer diddymu Ymddiriedolaeth NHS Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche ac Ymddiriedolaeth NHS Cymunedol Caerdydd a'r Cylch ac ar gyfer diddymu'u gorchmynion sefydlu priodol.

**National Assembly for Wales**

STATUTORY INSTRUMENTS

**1999 No. (W. )**

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service Trusts (Wales) (Dissolution No. 2) Order 1999

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order provides for the dissolution of the University Hospital of Wales and Llandough Hospital NHS Trust and the Cardiff and District Community NHS Trust and for the revocation of their respective establishment orders.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**1999 Rhif (Cy. )**

**1999 No. (W. )**

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service Trusts (Wales) (Dissolution No. 2) Order 1999

Wedi'i wneud 1999

Yn dod i rym 1 Ebrill 2000

Made 1999

Coming into force 1st April 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 126(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977[a] ac adran 5(1), a pharagraff 29(1) o Atodlen 2 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990[b] a phob per arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru[c], gan ei fod yn barnu ei bod yn briodol gwneud y Gorchymyn hwn [ch] er lles y gwasanaeth iechyd, ac ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan baragraff 29(3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf olaf[d]:

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State for Wales by

Section 126(3) of the National Health Service Act

1977[a] and section 5(1), and paragraph 29(1) of Schedule 2 to the National Health Service and Community Care Act 1990[b] and of all other powers enabling him in that behalf and now vested in the National Assembly for Wales[c], considering it appropriate in the interests of the health service to make this Order[d], and after completion of the consultation prescribed under paragraph 29(3) of Schedule 2 to the latter Act[e]:

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (Diddymu Rhif 2) 1999 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

**Citation and commencement**

**1.** This Order may be cited as the National Health Service Trusts (Wales) (Dissolution No. 2) Order 1999 and shall come into force on 1st April 2000.

**Diddymu Ymddiriedolaethau NHS**

**2.-**(1) Diddymir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymunedol Caerdydd a'r Cylch.

2. Diddymir drwy hyn y Gorchmynion a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Dissolution of NHS Trusts**

**2.-**(1) The University Hospital of Wales and Llandough Hospital National Health Service Trust and the Cardiff and District Community National Health Service Trust are hereby dissolved.

(2) The Orders specified in column (1) of the Schedule to this Order are hereby revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998.

1999

Y Llywydd

1999

Presiding Officer

Erthygl 2(2)

## ATODLEN

(1) Gorchmynion a ddiddymir (2) Cyfeirnodau

---

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd

Gwladol Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandoche

(Sefydlu) 1999 O.S. 1999/1119

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd

Gwladol Cymunedol Caerdydd a'r Cylch (Sefydlu) 1999 O.S. 1999/1118

Article 2(2)

## SCHEDULE

| (1) Orders revoked | (2) References |
| --- | --- |
| The University Hospital of Wales and Llandough Hospital National Health Service Trust (Establishment) Order 1999 | S.I. 1999/1119 |
| The Cardiff and District Community National Health Service Trust (Establishment) Order 1999 | S.I. 1999/1118 |